DŴR CYMRU
WELSH WATER

GWYBODAETH CWSMERIAID

Copr

Fel arfer, nid oes cyfrannau arwyddocaol o gopr a sinc mewn dŵr heb ei drin, a dim ond olion yn debyg o fod yn bresennol mewn dŵr yn gadael ein gweithfeydd trin dŵr.

Gall lefelau copr uwch ddeillio o gysylltiad â phibellau copr preswyl. Nid yw ein dŵr yn debyg o gyrydu pibellau copr yn sylweddol; byddwn yn trin y dŵr os yn debyg o gyrydu pibellau. O bryd i'w gilydd gall copr mewn cyflenwadau dŵr symbylu cyrydiad o fetelau eraill, megis dur galfanedig ac alwminiwm sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r dŵr, ond ni chofnodwyd hynny o fewn cyflenwadau dŵr y cwmni.

Mae copr yn elfen bwysig o'n diet ac ni chredir fod y lefelau arferol mewn dŵr yfed yn cynrychioli unrhyw berygl i iechyd pobl. Terfyn cyfredol y Deyrnas Unedig yw 2,000 microgram per litr; gall lefelau uwch na 5,000 microgram arwain at staenio ffitiadau dŵr yn wyrdd, gan liwio'r dŵr a chreu blas chwerw.

Gall lefelau copr mewn dŵr fynd dros y terfyn mewn tai newydd, neu ble gosodwyd nifer o bibellau copr newydd, ond bydd y lefelau'n gostwng yn gyflym.

Os bydd angen gwybodaeth bellach galwch ni ar 0800 052 0130.